

Mae'r Daflen Wybodaeth hon yn rhoi arweiniad ac yn amlinellu'r Safon Polisi ar sut y gall gyrwyr sicrhau eu bod yn feddygol ffit i yrru ar fusnes sy'n ymwneud â'r Brifysgol. Mae'n ffurfio cyfres o Daflenni Gwybodaeth sy'n cefnogi'r *Safon Polisi Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau*.

Rhaid i unrhyw un sy'n gyrru ar fusnes sy'n ymwneud â'r Brifysgol sicrhau'r canlynol:

- Maent yn ffit i wneud hynny.
- Mae eu cyflwr iechyd yn caniatáu iddynt yrru heb ddylanwad diod, cyffuriau neu salwch gan achosi perygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd, teithwyr neu eu hunain.
- Os ydynt wedi'u contractio i yrru fel rhan o'u dyletswyddau, yn cymryd rhan mewn Gwiriadau Iechyd os cânt eu cyfarwyddo gan eu Coleg / Gwasanaeth a/neu gan yr Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol.

Mae'n hollbwysig bod gyrwyr yn cadw golwg ar eu hiechyd eu hunain; yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Llinell a / neu'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol (os oes angen) ar unwaith am unrhyw gyflyrau meddygol a all achosi salwch sydyn a / neu sy'n effeithio ar olwg, ymwybyddiaeth neu ganolbwyntio ac a allai eu rhoi nhw neu eraill mewn perygl pan fyddant yn gyrru.

Yn ogystal, mae gan bob gyrrwr gyfrifoldeb statudol i hysbysu'r Asiantaeth Trwyddedu Cerbydau a Gyrwyr (DVLA) am rai cyflyrau meddygol gyda rheolau ychwanegol yn berthnasol i yrwyr bysiau mini (rhwng 9 ac 16 o seddi teithwyr) a bysiau. Yn ogystal, fel rhan o ofynion yswiriant y Brifysgol, rhaid i yrwyr hefyd hysbysu eu Coleg / Gwasanaeth os ydynt yn gyrru ar fusnes y Brifysgol a bod ganddynt unrhyw gyflwr o'r fath. Bydd angen hysbysu darparwr yswiriant cerbyd personol y gyrrwr hefyd.

Dyma'r cyflyrau meddygol y mae'r DVLA eisiau clywed amdanynt:

**Diabetes** – yn cael ei drin â diet, diet a tabledi neu inswlin, ac unrhyw gymhlethdodau meddygol a all ddeillio o ddiabetes, fel afiechyd llygad.

**Anhwyllderau calon** – trawiad ar y galon (MI), llawfeddygaeth ddargyfeiriol ar y galon, angioplasti, afiechyd ar falfiau'r galon, angina, tarfu o bwys ar rhythm y galon sy'n achosi penysgafndod, llewygu neu golli ymwybyddiaeth.

**Cyflyrau niwrolegol** - strôc, strôc fach, thrombosis yr ymennydd, sglerosis gwasgaredig, clefyd niwronau motor, llawdriniaeth ar yr ymennydd, tiwmor yr ymennydd, anaf difrifol i'r pen, problemau cof difrifol neu gyfnodau o ddryswch, epilepsi, ffitiau neu lewygon, pendro sy'n achosi anabledd difrifol neu gyson, clefyd Parkinson.

**Problemau cysgu** – unrhyw gyflwr sy'n achosi eisiau cysgu difrifol yn ystod y dydd neu pan ydych yn effro, apnoea cysgu, narcolepsi neu cataplecsi.

**Problemau golwg** – unrhyw gyflwr gweledol sy'n effeithio ar y ddau lygad, heb gynnwys golwg byr neu olwg hir wedi'i gywiro neu liwddallineb, unrhyw gyflwr gweledol sy'n effeithio ar y llygad sydd ar ôl, os ydych yn gweld o un llygad yn unig (heb gynnwys golwg byr neu olwg hir wedi'i gywiro neu liwddallineb).

**Alcohol a chyffuriau** – dibyniaeth neu gamddefnydd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

**Materion iechyd meddwl** – unrhyw gyflwr iechyd meddwl yn cynnwys iselder, neu unrhyw salwch seiciatrig a oedd angen triniaeth breswyl mewn ysbyty.

## **Gwybodaeth Bellach**

Mae tudalen we [Cyflyrau Meddygol y DVLA](#) yn cynnig rhagor o wybodaeth am hysbysiadau cyflwr meddygol statudol.

I gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am drwyddedu gyrwyr ewch i brif wefan y DVLA yn [www.dvla.gov.uk](http://www.dvla.gov.uk).